BHNOG



# Cylchlythyr

Mehefin 2023

## Cyfarfod i Randdeiliaid ar Anemia Amdriniaethol

Cynhaliodd y Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol Iechyd Gwaed gynhadledd ar Anemia Amdriniaethol i randdeiliaid ar 15 Mehefin 2023. Daeth 54 o weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n cynrychioli Byrddau Iechyd ar draws Cymru at ei gilydd i gefnogi gweithredu Llwybr Amdriniaethol Cymru Gyfan. Fe ganmolodd y siaradwr gwadd, yr Athro Chris Jones - Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru (yn y llun isod gydag aelodau o’r tîm) y rhaglen yn fawr, gan dynnu sylw at sut y bydd rheoli anemia yn effeithiol yn cyflwyno gwerth i gleifion o ran canlyniadau a phrofiad.



Gyda chefnogaeth Gwerth mewn Iechyd Cymru, mae'r tîm Anemia Amdriniaethol - sy'n cynnwys Dr Caroline Evans (Arweinydd Clinigol), Stephanie Ditcham (Arweinydd Rhaglen) a Chris Jones, Krystle Towell a Joanne Gregory (Cydlynwyr Clinigol Anaemia Rhanbarthol) bellach yn symud i gam nesaf y rhaglen, gyda'r nod o gefnogi newid mewn prosesau ar draws pob bwrdd iechyd. Yn ogystal, mae pecyn hyfforddi Rheoli Gwaed Cleifion (PBM) ar gyfer gweithwyr proffesiynol meddygol a gofal iechyd yn cael ei ddatblygu a'i weithredu ar draws Cymru.
I ddarllen mwy am y gwaith anemia, cliciwch **yma**, neu i drafod materion/syniadau penodol, cysylltwch â ni: WBS.bloodhealthteam@wales.nhs.uk

# Adroddiad Blynyddol

Mae adroddiad blynyddol 2022 – 23 BHNOG bellach ar gael i'w ddarllen ar wefan BHNOG. Mae'r adroddiad yn nodi'r darnau allweddol o waith a gwblhawyd gan BHNOG yn ystod 2022 – 23, a'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.
Unwaith eto, hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi BHNOG dros y 12 mis diwethaf, yn enwedig arweinwyr ffrydiau gwaith a rhanddeiliaid o'r gymuned trallwyso ar draws Cymru.
Mae cydweithio wedi sicrhau ein bod ni nid yn unig yn cwrdd â’r heriau sy’n ymwneud â thrallwyso ond ein bod ni hefyd, yn adeiladu ar waith blaenorol i gyflwyno prosiectau uchelgeisiol sy'n gwella ansawdd a diogelwch trallwyso.
Er y gwerthfawrogir bod llawer o waith i'w wneud o hyd, mae'n wych cydnabod y cynnydd sydd wedi cael ei wneud.
Diolch i bawb sy'n cymryd rhan.




**Adroddiad Blynyddol**

I weld Adroddiad Blynyddol 2022 – 23 sydd ar gael ar wefan BHNOG, cliciwch yma

# Rhaglen Uwch Gynorthwyydd Dan Hyfforddiant (SSA)

Ym mis Mai 2023, cyflwynwyd y rhaglen SSA flynyddol i dros 400 o fyfyrwyr Meddygol 5ed blwyddyn o bob rhan o Gymru.

Mae'r rhaglen yn cael ei rhedeg ym mhob Bwrdd Iechyd, ac yn cael ei chyflwyno fel rhaglen addysg hanner diwrnod ar drallwyso, sy'n cynnwys pedair gorsaf:

- Digwyddiad Andwyol
- Penderfynu Trallwyso
- “Play your Cards Right”
- Asesiad Cymhwysedd – Cymryd Sampl Cyn Trallwyso

Mae pob gorsaf wedi'i chynllunio i fod yn rhyngweithiol, gyda'r pwyslais ar gymhwyso gwybodaeth trallwyso yn ymarferol. Roedd adborth gan fyfyrwyr yn bositif dros ben, gyda 97% o'r rhai a wnaeth ateb yn cadarnhau eu bod wedi ystyried bod y sesiwn yn addysgiadol ac yn berthnasol i sut y gallai sefyllfa trallwyso fod.

Gofynnwyd i fyfyrwyr gwblhau gwerthusiad hunanasesu o'u gwybodaeth trallwyso cyn ac ar ôl cwblhau'r rhaglen ac ym mhob amcan allweddol a nodwyd, cofnodwyd gwelliant mewn gwybodaeth. I gael adroddiad cryno o'r rhaglen SSA cliciwch yma. Mae adroddiad a dadansoddiad llawn ar gael gan eich Tîm Trallwyso Ysbytai.

Dyfyniadau gan fyfyrwyr mewn perthynas â’r rhaglen Uwch Gynorthwyydd dan Hyfforddiant 2023:

*'Onest, dyma rywfaint o'r addysgu gorau a gefais i - creadigol a deniadol iawn. Rhyngweithiol iawn, ac fe wnes i fwynhau pob sesiwn yn fawr."*

*'Diwrnod hyfforddi defnyddiol iawn, rwy’n teimlo'n llawer mwy hyderus mewn perthynas â thrallwysiadau gwaed a rheoli adweithiau'*

*'Yn ystod y diwrnod addysgu ar drallwyso gwaed, llwyddais i drafod pob agwedd ar drallwyso gyda'r arbenigwyr yn y maes, a wnaeth wella fy nysgu'*

# Grŵp Strategaeth Addysg BHNOG



Rydym yn falch o gyhoeddi bod Grŵp Strategaeth Addysg BHNOG bellach wedi'i gymeradwyo, a bydd Sarah Beuschel, Ymarferydd Trallwyso Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cadeirio.

Bydd y grŵp yn adolygu Strategaeth Addysg bresennol BHNOG, ac yn diffinio'r blaenoriaethau a'r cynlluniau gwaith ar gyfer y 12 mis nesaf.

Mae addysg trallwyso yn rhan annatod o gyfeiriad strategol cyffredinol BHNOG, a rhagwelir y bydd gwaith y grŵp hwn yn allweddol o ran darparu ymwybyddiaeth benodol mewn perthynas â thrallwyso i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar draws Cymru a thrwy hynny, gwella ymarfer a diogelwch.

I gael rhagor o wybodaeth am y Strategaeth Addysg a Chylch Gorchwyl y Grŵp Strategaeth Addysg, cliciwch yma.

---

Mae'r cylchlythyr hwn wedi'i ddosbarthu ar ran y Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol.

Mae croeso i chi ei anfon ymlaen at gydweithwyr neu bartïon eraill sydd â diddordeb.

I gael rhagor o wybodaeth neu ddiweddariadau, cysylltwch â'r Tîm Iechyd Gwaed:
WBS.bloodhealthteam@wales.nhs.uk

Os nad ydych yn dymuno derbyn y cylchlythyr hwn rhagor, cysylltwch â: WBS.bloodhealthteam@wales.nhs.uk